**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol - Canolfan Gymdeithasol Golan**

**Dyddiad:**

2il o Orffennaf, 2026

**Presennol**

John Till (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Huw Pritchard (Pentrefelin), Enid Egginton, Clifford Williams; John Jones (Garndolbenmaen) Megan Lloyd Williams (Golan), Richard Williams (Prenteg)

**Ymddiheuriadau**

Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Raymond Jones (Pentrefelin), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones a Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Datgan Buddiant**

Neb

**Penderfyniadau**

**Grant Gwynedd Ni a Chronfa Cymunedol Eryri**

Nodwyd nad oedd y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar 4 Mehefin ynghylch Eitem 11, *Grant Gwynedd Ni,* wedi'i gofnodi. Cytunwyd felly i gymeradwyo'r cofnodion gyda'r cywiriad canlynol:

Gan fod y Cyngor yn dal i aros am brisiau ar gyfer y prosiectau posibl, nid oedd modd gwneud penderfyniad yn y cyfarfod ar y 4ydd o Fehefin. Ar ôl derbyn yr holl brisiau, ac o ystyried yr amserlen dynn ar gyfer cyflwyno'r cais grant, penderfynwyd ymdrin â'r mater drwy e-bost.

Cadarnhawyd drwy e-bost fod mwyafrif yr Aelodau o blaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y prosiectau canlynol:

· Meinciau Neuadd Prenteg

· Gwelliannau i Faes Parcio Penmorfa

· Trawsnewid yr ardal gefn Canolfan Pentrefelin yn ardd ddeniadol a hygyrch

Penderfynwyd peidio gwneud cais am fainc newydd ar dir ger Bryn Tyddyn, Pentrefelin y tro hwn.

Awgrymwyd hefyd y dylid gwneud cais i Grant Cronfa Gymunedol Eryri ar gyfer bwrdd gwybodaeth Eifion Wyn. Oherwydd terfyn amser tynn ar gyfer y gronfa hon hefyd, cytunwyd drwy e-bost i'r Clerc barhau â'r gwaith o gyflwyno'r cais.

Cofnodwyd bod y penderfyniadau hyn, er eu gwneud y tu allan i gyfarfod ffurfiol oherwydd yr amgylchiadau, yn cael eu cadarnhau'n swyddogol gan y Cyngor ac yn cael eu cynnwys yn y cofnodion er mwyn sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth

HP yn cynnig a EE (Garn) yn eilio cywirdeb cofnodion y 4ydd o Fehefin gyda'r ychwanegiad uchod.

**Cyfrif Cadw HTB -** Adroddodd y Clerc ei bod wedi llwyddo i agor cyfrif cadw gyda mynediad hawdd gyda Hampshire Trust Bank. Gan fod cryn amser wedi mynd heibio ers y penderfyniad diwethaf ynghylch faint o arian i'w drosglwyddo i'r cyfrif newydd, cytunwyd i wneud penderfyniad newydd.

Penderfynwyd yn unfrydol i drosglwyddo **£20,000** i'r cyfrif cadw.